***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2889

# Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2010

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

1 Rhagfyr 2010

(**1**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280), 2005/3345 (Cy.259), 2006/3347 (Cy.307), 2007/3343 (Cy.295), 2008/2929 (Cy.258) a 2009/3147 (Cy. 274).